Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Lynne Neagle
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
**Anfonwyd drwy'r e-bost yn unig**

16 Chwefror 2021

Annwyl Lynne

Diolch i chi am y cyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r sector nas cynhelir wedi i mi ymddangos gerbron y pwyllgor ar 14 Ionawr 2021.

**Parhad dysgu**

Canolbwyntiodd y cynllun parhad dysgu cenedlaethol yn bennaf ar blant oedran ysgol statudol (5+). Nid oedd unrhyw arweiniad penodol ar barhad dysgu ar gyfer y sector nas cynhelir. Rydym yn pryderu hefyd nad yw'r sector hwn wedi'i gynnwys yn y cyllid grant ar gyfer y rhaglen recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam. Mae'r broblem yn codi'n rhannol gan mai lleoliadau gofal plant yw'r rhain a ariennir gan awdurdodau lleol i gyflwyno addysg y cyfnod sylfaen. Yn ystod y pandemig, roedd trefniadau'n cael eu gwneud naill ai ar gyfer addysg mewn ysgolion a gynhelir neu ar gyfer gofal plant, a golygai hyn weithiau nad oedd anghenion addysg plant a oedd yn mynychu lleoliadau nas cynhelir yn cael ystyriaeth ddigon da ar lefel strategol.

Caeodd y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf a rhoddwyd staff ar y cynllun ffyrlo gan lawer ohonynt. Roedd dryswch i leiafrif o leoliadau ar y dechrau o ran p'un a oedd ymarferwyr ar y cynllun ffyrlo yn gallu darparu cymorth o bell ar gyfer addysg, fel darparu gweithgareddau dysgu i blant eu cwblhau gartref. Roedd ymarferwyr yn y lleoliadau hyn yn pryderu ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau parhad dysgu i blant ifanc pan oedd lleoliadau ar gau a'r staff ar ffyrlo. Fodd bynnag, parhaodd llawer o leoliadau i gefnogi plant a theuluoedd trwy gydol y pandemig, er enghraifft trwy rannu gweithgareddau ar gyfer plant drwy lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, darparodd ychydig o leoliadau becynnau dysgu i rieni er mwyn iddynt helpu'u plant gyda'u dysgu gartref.

Yn gyffredinol, fe wnaeth athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol a sefydliadau ambarél helpu lleoliadau gyda syniadau ar gyfer gweithgareddau i'w rhannu gyda rhieni, ond nid oedd hyn yn gyson ar hyd a lled Cymru.

Mae pryder ynghylch cydraddoldeb darpariaeth i blant sy'n derbyn eu haddysg mewn lleoliadau nas cynhelir a'r rheini sy'n derbyn addysg mewn ysgolion. Er bod gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym ar gwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, ac ar y cyfan, mae awdurdodau lleol wedi parhau i ddarparu cymorth i leoliadau, nid oes unrhyw ymagwedd genedlaethol i wneud yn siŵr bod plant sy'n derbyn eu haddysg mewn lleoliadau yn gallu cael cymorth parhaus yn ystod cyfnodau clo. Er enghraifft, nid oes gan leoliadau yr un mynediad at HWB ag ysgolion.

**Sefyllfa ariannol**

Yn hanesyddol, mae'r cyllid ar gyfer addysg wedi bod yn isel iawn ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, ac mae'n sylweddol is na chyfradd ddyddiol y cynnig gofal plant. Ar draws awdurdodau lleol, ceir anghysonderau yn y swm a delir i leoliadau i gyflwyno addysg gynnar, ac mae anghysonderau yn y modd y mae lleoliadau yn derbyn y cyllid hwn. Hefyd, ceir anghysonderau yn y modd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar y bydd cynnydd yng nghyllid meithrin y cyfnod sylfaen er mwyn cysoni cyfraddau addysg a gofal plant o fewn y cynnig gofal plant.

Mae lleoliadau yn adrodd, yn ystod y cyfnod clo cyntaf, bod yna anghysonderau o ran pa bryd y rhoddodd awdurdodau lleol y gorau i ariannu lleoliadau a oedd yn cynnig addysg gynnar. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu ag ysgolion sydd wedi parhau i dderbyn cyllid. Cyn y pandemig, roedd llawer o leoliadau yn pryderu ynglŷn â'u cynaliadwyedd a'u cyllid, ac fe wnaeth dileu cyllid waethygu hyn.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn adrodd am gostau uwch wrth ddarparu rheolaethau effeithiol o ran y feirws i fodloni anghenion eu hasesiadau risg. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu cymarebau staffio a darparu cyfarpar diogelu personol. Mae ychydig o leoliadau yn adrodd na chawsant gymorth gyda darparu cyfarpar diogelu personol, er bod yr awdurdod lleol wedi darparu cyfarpar yn rhad ac am ddim i ysgolion. Mae'n rhaid i leoliadau ddod o hyd i'w cyfarpar eu hunain a'i ariannu, ac yn aml nid oeddent yn rhan o unrhyw system brynu yr awdurdod lleol a fyddai wedi'u helpu nhw i leihau costau.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, adroddodd lleoliadau eu bod wedi derbyn cymorth da i gynnal asesiadau risg ac i lunio polisïau a gweithdrefnau i'w helpu i leihau lledaeniad yr haint. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, roedd perthnasoedd rhwng lleoliadau a'r awdurdod lleol yn fregus. Er enghraifft, adroddodd ychydig o leoliadau am bryderon yn ymwneud â chymhwyso'r grant Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws (C-CAS), ac ychwanegodd hyn at eu pwysau ariannol. Adroddodd y lleoliadau hyn y dywedwyd wrthynt y byddent yn derbyn cyfradd ddyddiol ar gyfer plant cymwys a oedd yn mynychu'r lleoliad ac y byddai angen iddynt gyflwyno cofrestrau i hawlio'r cyllid hwn. Fodd bynnag, wynebont adfachiadau o'r cyllid hwn yn ddiweddarach, er enghraifft os oedd plentyn wedi'i gasglu yn gynharach yn y dydd nag a drefnwyd yn wreiddiol. Nododd y lleoliadau fod y sefyllfa hon wedi creu pwysau ariannol ychwanegol.

Mae lleoliadau yn aml yn pryderu am yr oedi o ran cyllid gan awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n gymwys ar gyfer addysg gynnar. Mewn rhai awdurdodau lleol, rhoddir cyllid fel ôl-daliadau, a gall hyn olygu nad yw staff yn cael eu talu hyd nes y derbynnir cyllid.

Mae llawer o leoliadau'n pryderu nad ydynt wedi gallu codi arian fel o'r blaen. Yn aml, mae hwn wedi bod yn anadl einioes i leoliadau ac mae wedi'i helpu gyda chyllid yn ystod tymor yr hydref, pan oedd llai o blant yn mynychu'r lleoliad yn gyffredinol. Mae'r cyfnod clo diweddaraf, unwaith eto, yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae rhieni yn tynnu'u plant o leoliadau am eu bod yn aml yn gweithio o gartref eu hunain ac yn dewis darparu eu gofal plant eu hunain. Caiff hyn effaith ar y cyllid y mae lleoliadau'n ei dderbyn, ac mae hefyd yn ei gwneud hi'n anodd iddynt wybod faint o staff fydd eu hangen arnynt yn y dyfodol i fodloni cymarebau gofynnol. Mae'r cynnig gofal plant yn seiliedig ar bresenoldeb plant. Mae hyn yn ei gwneud hi'n heriol i leoliadau gynllunio, ac mae'n debygol o gael effaith ar eu hyfywedd yn y dyfodol. Yn fwyaf diweddar, mae lleoliadau wedi bod yn mynegi pryderon ynglŷn â therfynu'r cynllun ffyrlo ym mis Ebrill law yn llaw â chynnydd yn y cyflog byw ac ardrethi busnes uwch. Gallai'r rhain, o'u cyfuno â'r nifer o ddiswyddiadau a ragwelir, wneud lleoliadau sydd ond yn cael dau ben llinyn ynghyd ar hyn o bryd, yn anghynaliadwy.

**Materion eraill**

Yn ystod tymor y gwanwyn, mae llawer o leoliadau'n adrodd am bryderon ynghylch aros ar agor tra bod ysgolion ar gau, a chynnydd mewn gorbryder ymhlith staff. Maent yn pryderu bod ysgolion, sy'n cynnig addysg i blant o'r un oed, ar gau oherwydd perygl trosglwyddo'r feirws, ac eto gall lleoliadau aros ar agor i'r holl blant. Maent yn adrodd nad yw rhieni bod amser yn deall y sail resymegol dros hyn, ac maent yn fwy tebygol o gadw eu plant gartref felly. Rydym yn croesawu camau a gymerwyd i gysoni rhai o'r materion a godwyd gan y sector, fel cynnal mwy o brofion mewn lleoliadau a newidiadau i'r grwpiau brechlyn ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu gofal personol yn rheolaidd i'r rheini sy'n glinigol agored i niwed i Covid-19.

Mae lleoliadau'n wynebu beichiau ychwanegol wrth ymateb i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chadw plant yn ddiogel. Dywedwyd wrth leoliadau sy'n cynnig addysg gynnar fod angen iddynt ystyried y ddogfen ar gyfer lleoliadau gofal plant yn ogystal â'r un ar gyfer ysgolion. Mae'r rhain yn ddogfennau manwl, ac mae lleoliadau yn adrodd nad yw bob amser yn hawdd llywio trwy'r ddwy ddogfen a nodi ble mae newidiadau wedi'u gwneud pan gawsant eu diweddaru.

Yn gywir

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru